# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 12.02.15

**Yn bresennol**: **Y Cyng. Peter Read (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Beth Lawton (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Gweno Glyn, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Chris Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Dylan Davies, Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitem 4:**
Y Cyng. Gareth Roberts - Aelod Cabinet Gofal
Glenda Lloyd Evans - Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn
Gwenno Williams - Uwch Reolwr Gweithredol
Nia Elis-Williams - Uwch Reolwr Gweithredol Dros Dro

**Ar gyfer Eitemau 5 a 6:**
Y Cyng. Mair Rowlands - Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden
Marian Parry Hughes - Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**Ar gyfer Eitemau 7, 8 a 9:**
Y Cyng. Gareth Thomas - Aelod Cabinet Addysg
Mr Clive Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ESTYN – Eitemau 7 ac 8
Iwan Roberts, Arolygydd ei Mawrhydi, ESTYN – Eitemau 7 ac 8
Arwyn Thomas - Pennaeth Addysg

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Dewi Owen, Parch. Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mr Neil Foden, Mr David Healy (Undebau Athrawon) a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cyng. Huw Edwards gan dalu teyrnged iddo am ei waith a'i ymroddiad diflino i'r Pwyllgor Craffu hwn dros y blynyddoedd diwethaf ac y byddai colled enfawr ar ei ôl.

(b) Y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac oherwydd ni dderbyniwyd unrhyw gais am wasanaeth cyfieithu na chofrestriad ymlaen llaw mai yn Gymraeg yn unig y

byddai'r darllediad. Mewn ymateb, gwnaed cais gan Aelod i dderbyn rhybudd ymlaen llaw ar y rhaglen i'r dyfodol yn nodi bod cyfarfodydd yn cael eu gwe-ddarlledu.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol pe byddir yn trafod unrhyw eitem yn ymwneud ag anableddau dysgu.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2014 yn ddarostyngedig i ychwanegu'r enwau canlynol at y rhestr o'r rhai oedd yn bresennol

(a)Y Cynghorwyr Gweno Glyn a Linda Ann Wyn Jones
(b) Mr Marc Roberts a Vicky Poole (AGGCC)

## 4. ADOLYGIAD O DREFNIADAU'R GWASANAETH GALLUOGI

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn diweddaru'r Pwyllgor o'r adolygiad i'r Gwasanaeth Galluogi gan gyfeirio at yr hyn sy'n digwydd, effaith y cynllun a sut y gellir cynnig y gwasanaeth yn wahanol. Nodwyd ei fod yn gynllun eithaf drud sy'n cynnig gwasanaeth i unigolion am gyfnod byr yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty er mwyn eu galluogi i hybu annibyniaeth ac nad oes gorddibyniaeth o'r gwasanaeth.

(b) Amlygwyd y pryderon amlinellir isod gan yr Aelodau ac fe ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn iddynt yn unigol:

(i) O safbwynt gorwariant ar y cynllun galluogi, gofynnwyd a oedd hyn yn deillio drwy i'r Adran gynnig gormod o wasanaeth i'r unigolion yn y lle cyntaf wrth wneud yr asesiadau. Mewn ymateb, atgoffwyd y Pwyllgor bod y cynllun wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn 2010. Yn dilyn adrodd bod gorwariant o fewn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 2 gwnaethpwyd gwaith i ganfod beth oedd wedi cyfrannu tuag at y gorwariant. Gan hynny, rhoddwyd sylw i'r cynllun galluogi er mwyn canfod beth oedd y costau ac i ystyried a oedd trefniadau monitro yn gweithio'n effeithiol. Esboniwyd nad oedd y gwasanaeth yn cwblhau asesiad cynhwysfawr ymhob achos oherwydd gan amlaf bod asesiad yn cychwyn yn yr ysbyty ond drwy gyflwyno cynllun galluogi roedd yn gyfnod o adfer ac erbyn y diwedd bo'r asesiad wedi ei gwblhau yn llwyr. Ar ddiwedd y cyfnod hwn felly mae modd penderfynu ai yw'r unigolion angen gwasanaeth o gynhaliaeth. Yr hyn amlygwyd o'r adolygiad ydoedd bod lle i gryfhau trefniadau monitro oherwydd rhagdybiaeth bod gwasanaeth galluogi yn wasanaeth roedd unigolion â hawl iddo am gyfnod o hyd at 6 wythnos ond ei fod yn ddibynnol ar amgylchiadau unigolion. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o unigolion fyddai wedi gallu mynd adref o'r ysbyty heb orfod derbyn y gwasanaeth. Amlygwyd ymhellach bod yn rhaid deall egwyddorion gwasanaeth galluogi a'u rhannu gyda'r Bwrdd Iechyd. Yr hyn welwyd o'r adolygiad bod oddeutu 55%-60% o'r defnyddwyr wedi gadael y cynllun heb fod angen i'r gwasanaeth barhau iddynt. Mae lle i sicrhau bod yr unigolion sydd ei angen yn ei dderbyn am y cyfnod sy'n addas iddynt ac fe welwyd bod gormod o unigolion yn derbyn y gwasanaeth a fyddai efallai yn elwa o'r gwasanaeth am 3 wythnos yn hytrach na 6 wythnos. Rhaid felly sicrhau trefniadau monitro effeithiol er mwyn canfod goblygiadau i'r gyllideb.

(ii) Nodwyd bwysigrwydd bod unigolion yn derbyn asesiadau cyn dod allan o'r

ysbytai oherwydd bo’r diwrnodau cyntaf adref yn bwysig. Dylai canllawiau’r cynllun galluogi fod yn gyson i ddefnyddwyr gwasanaeth Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr boed hwy yn mynychu ysbytai Gwynedd, Maelor, Glan Clwyd, Broadgreen, Gobowen, a.y.b. Yn deillio o’r Ymchwiliad Craffu Rhyddhau O’r Ysbyty i’r Cartref sy’n mynd rhagddo canfuwyd bod unigolion, yn aml, yn disgwyl am o leiaf 5 diwrnod i dderbyn asesiad.

Mewn ymateb, sicrhawyd bod yr unigolion sydd yn gadael yr ysbytai ac angen cymorth yn derbyn y gwasanaeth. Ni welwyd tystiolaeth bod unigolion yn aros am wasanaeth galluogi a sicrhawyd bod swyddogion yn gweithio’n agos gyda staff yr ysbytai gan gynnwys ysbytai cymunedol.

(ii) Gofynnwyd am esboniad o’r meini prawf a nodwyd y cyfeiriwyd at nifer yr unigolion:

- sy’n gadael y gwasanaeth heb i’r cynllun orfod parhau
- sy’n gadael gyda lleihad yn y gwasanaeth maent angen
- sy’n gadael heb gwblhau'r cynllun

O safbwynt cwblhau’r cynllun, nodwyd bod pob achos yn ddibynnol ar gymhlethdodau’r achos. Pe byddai unigolyn ar lefel isel o angen cymorth, gall y gofalwyr cartref rannu gwybodaeth gyda’u goruchwylwyr a’r gwasanaeth yn dirwyn i ben. Fodd bynnag, mewn achosion cymhleth gweithwyr cymdeithasol fyddai’n rhan o’r trafodaethau.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â llwyddiant y cynllun, gwelwyd un ardal benodol yn Arfon lle'r oedd trefniadau monitro arbennig o dda a phe byddir yn gallu gweithredu’r drefn yma ar draws y Sir byddai’r gwasanaeth yn cryfhau ymhob ardal.

(v) Nodwyd bod niferoedd yn eithaf cyson o ran y nifer sy’n dod i sylw’r gwasanaeth. Roedd cynnydd yn y flwyddyn neu ddwy gyntaf ond erbyn hyn gwelir oddeutu 350 yn gwneud defnydd o’r cynllun yn flynyddol.

(vi) O safbwynt pryder ynglŷn â maint y gorwariant i’r gwasanaeth a’r ffaith ei fod wedi cymryd pedair blynedd i ddod i’r casgliad bod y gwasanaeth yn ddrud, esboniwyd y cyfeiria’r adroddiad sydd gerbron at orwariant ar gyllideb sy’n fwy na’r gyllideb galluogi a bo her yn wynebu’r Cyngor o ran twf ym mhoblogaeth pobl hŷn a chymhlethdodau anghenion trigolion y cymunedau. Adnabuwyd hyd at £1m o arbedion mewn cyfnod o bedair blynedd ond ochr yn ochr â hyn rhaid parhau i wasanaethu’r bobl hŷn sydd angen pecynnau gofal i sicrhau iddynt fedru byw yn eu cartrefi. Nodwyd ymhellach bod adroddiad ar wahân i’w gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio fydd yn ystyried y gorwariant yn gyffredinol.

(vi) Bod anghysondebau yng nghynnwys yr adroddiad a diffyg gwybodaeth glir o safbwynt yr arbedion a’r mesurau perfformiad. Mewn ymateb, esboniwyd bod pwyslais enfawr ar drawsnewid y gwasanaeth ac adnabod arbedion i’w drawsnewid. Cydnabuwyd nad oedd yr adroddiad yn cyfarch yr hyn mae galluogi yn golygu i unigolion a hyderir y gellir gwneud hyn er mwyn sicrhau defnyddio’r gwasanaeth yn amserol ac i wneud y gorau i drigolion Gwynedd.

(vii) Awgrymwyd y dylid mesur effaith llwyddiant y cynllun yn sgil ansawdd y ddarpariaeth a’r gofal i’r defnyddiwr a pha effaith y bydd yn gael yn gyffredinol i’r dyfodol.

(viii) Pwysigrwydd i dderbyn adborth gan feddygon a nyrsys cymunedol cyn diddymu cynlluniau o'r fath.

(ix) Ni ddylid atgoffa'r gweithlu o bwrpas y cynllun oherwydd dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol a deall gofynion y ddarpariaeth yn drylwyr.

(x) Gofynnwyd am gyfeiriad penodol i waith John Bolton, Arbenigwr yn y maes gofal pobl hŷn.

**Penderfynwyd: Yn sgil yr holl bryderon amlygwyd uchod, gofynnir i'r Ymchwiliad Craffu Rhyddhau O'r Ysbyty i'r Cartref drefnu cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaeth Oedolion i'w trafod ymhellach ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar eu canfyddiadau maes o law.**

## 5. ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16 – 2016/17 (GWASANAETHAU TRAIS YN Y CARTREF DE GWYNEDD A CHYMORTH I FERCHED BANGOR)

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn amlinellu gwybodaeth ychwanegol yn unol â chais y Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014 er mwyn sicrhau eglurder o effaith penderfyniad i ddiddymu'r cyfraniad ariannol i gwasanaeth Cymorth i Ferched Bangor a Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd.

(b) Esboniodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc bod yn rhaid edrych ar arbedion effeithlonrwydd ymhob maes sy'n cynnwys adolygu cyllid a ddarparir i bartneriaid allanol. Pwysleisiwyd nad oedd yn benderfyniad hawdd ond o bwyso a mesur arbedion effeithlonrwydd eraill ystyriwyd y byddai llai o effaith i'r gwasanaeth drwy ddiddymu cytundebau'r ddau fudiad uchod. Yn unol â chais y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau derbyniwyd mwy o wybodaeth gan y ddau fudiad a chyfeiriwyd at yr Atodiadau oedd ynghlwm i'r adroddiad gan dynnu sylw penodol at y nifer o'r achosion a weithredwyd gan Wasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd. Eglurwyd bod y ffigyrau wedi eu gwirio ac ymddengys mai 20 achos (ac nid 65) a gofrestrwyd gyda 3 / 4 o'r achosion wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan y gweithiwr plant a gyflogir drwy arian y cytundeb. Pwysleisiwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gyfarch gofynion statudol i blant a phobl ifanc pe diddymir gwasanaethau'r ddau fudiad.

(c) Amlinellwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- Ni fyddai'r Cyngor yn gallu cynnig y gwasanaeth a gynigir gan y mudiadau uchod megis cynnig lloches i blant a theuluoedd ac y byddai diddymu'r gwasanaeth yn cael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc
- Tra'n derbyn bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud gwaith arbennig roedd mudiadau'r trydydd sector wedi tyfu ar gyfer anghenion nad ydynt yn cael ei diwallu drwy ffurf statudol a bod rhaid ystyried hyn yn fanwl cyn penderfynu gwneud toriadau i'w cytundebau
- Siom nad oedd cynrychiolaeth o'r mudiadau wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod fel bo modd iddynt ymateb i gwestiynau ac amryfusedd ynghylch manylion ymateb Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd i'r cais am y nifer o blant a gefnogir oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Byddai trafodaeth gyda'r mudiadau yn caniatáu i'r Aelodau ddeall gwir effaith y toriadau ar oblygiadau'r ffynonellau craidd

(ch)Ymatebwyd i'r uchod fel a ganlyn:

- Tra'n derbyn bod Cymorth i Ferched Bangor yn gallu cynnig lloches, eglurwyd nad oedd y gweithiwr plant yn ymateb i geisiadau o argyfwng i deuluoedd ac mai'r Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn gwneud hynny. Nodwyd ymhellach bod darpariaeth llochesi yn cael ei ariannu o ffynonellau gwahanol a'r arian a gynigir o dan y gytundeb yn mynd i gefnogi swydd a hanner ar gyfer gweithiwr plant yn Ne Gwynedd ac un ym Mangor.
- Y byddai cyfrifoldeb statudol y Cyngor yn parhau o ran asesu risg, a rhoi cefnogaeth i blant trais yn y cartref ac yn cael ei weithredu drwy drefniadau amlasiantaethol.
- Bod y mudiadau wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu hwn ac nad oedd penderfyniad yn y cyfarfod paratoi a gyfarfu ar 13 Ionawr 2015 i'w gwahodd ymhellach

(d) Roedd consensws barn ymysg Aelodau'r Pwyllgor Craffu y byddai gweithredu'r uchod fel arbedion effeithlonrwydd yn cael effaith ar y gwasanaeth ac y dylid ei drosglwyddo i'r gyfundrefn toriadau er mwyn caniatáu mwy o amser i'r ddau fudiad fonitro sgil effaith yr arbediad iddynt. O ystyried arbediad o 15% o incwm blynyddol Cymorth i Ferched a 6% o incwm blynyddol Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd, gall hyn fod yn graidd i'r ddau fudiad ddenu 85% a 94% ychwanegol o ffynhonellau eraill. Roedd yn wybyddus bod y ddau fudiad o fudd i blant a theuluoedd a rhagwelwyd pe byddir yn diddymu'r cytundebau y byddai mwy o gyfrifoldeb yn syrthio ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ac er yn cynnig arbedion y byddai yn y pen draw yn costio mwy i'r Cyngor.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc gyfleu:**

**(i) wrthwynebiad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i ddiddymu cytundebau'r ddau fudiad uchod fel arbedion effeithlonrwydd a'i dymuniad i warchod yr arian**

**(ii) ddymuniad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i gyfeirio'r mater i gyfundrefn toriadau'r Cyngor**

**(b) Gofyn i swyddogion perthnasol wneud cais i Wasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor i gadw manylion trylwyr yn ystod y flwyddyn sy'n manylu ar weithredu heb gyllid craidd.**

## 6. MESURYDD SCC/025 – YMWELIADAU STATUDOL I BLANT MEWN GOFAL

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu gwybodaeth am berfformiad cyfredol y Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd yn erbyn mesurydd lle amlygwyd pryder o ran perfformiad.

(b) Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd bod yr Adran wedi rhoi sylw manwl i'r dangosydd a'r rhesymau pam bod y dangosydd yn isel. Ar ôl gwaith manwl daethpwyd i gasgliad bod y perfformiad isel yn ymwneud â chofnodi a'r ffaith nad oedd pob ymweliad yn cael ei gofrestru ar y ffurflen bwrpasol statudol yn sustem RAISE. Sicrhawyd bod pob gweithiwr yn ymwybodol ac fe welir bod y ffigwr cronnus ar ddiwedd y trydydd chwarter yn 83% yn uwch na chyfartaledd Cymru, cyfartaledd teulu o awdurdodau a thargedau'r gwasanaeth ei hun. Nodwyd ymhellach bod cyfiawnhad o'r rhesymau pam bod y dangosydd yn isel. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet er bod y ffigwr yn uwch na'r cyfartaledd roedd o'r farn bod raid cadw golwg manwl arno ynghyd â'r gweithdrefnau sydd mewn lle.

(c) Amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- Ymfalchïwyd yn y gwasanaeth hwn a gwerthfawrogwyd y wybodaeth oedd gerbron
- Yn wyneb y toriadau a cholli swyddi, gofynnwyd sut oedd moral y gweithlu ac a oedd digon o weithwyr i gyflawni'r gwaith. Mewn ymateb, eglurwyd o gymharu â gweddill awdurdodau Cymru, nid oedd gan Wynedd restrau aros a chadarnhawyd bod pob plentyn mewn gofal gyda gweithiwr cymdeithasol cofrestredig. Nodwyd ymhellach bod staff yn ymdopi ac yn rheoli'r galw yn dda iawn ar hyn o bryd er bo cynnydd yn y niferoedd plant mewn angen sy'n cael eu cyfeirio.
- Mewn ymateb i sylw ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar, esboniwyd bod y ffigyrau ychydig yn gamarweiniol a bo gweithwyr cymdeithasol yn ymdrin ag oddeutu 24 achos o ran cyfartaledd llwyth gwaith.
- Tra'n croesawu bo datrysiad, pryderwyd bod y broblem wedi gallu digwydd yn y lle cyntaf. Mewn ymateb, eglurwyd bod cyfuniad o faterion wedi cyfrannu tuag at y llithriad a olygai rhoi trefn a chyfeiriadau clir i weithwyr.

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad.**

## 7. YMWELIAD MONITRO ESTYN

(a) Croesawyd Mr Clive Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, a Mr Iwan Roberts, Arolygydd ei Mawrhydi, ESTYN, i'r cyfarfod i amlinellu eu hargymhellion yn dilyn ymweliadau monitro yn dilyn eu harolygiad o wasanaethau addysg ym mis Mawrth 2013. Atgoffwyd yr Aelodau am farn ESTYN am yr ansawdd bryd hynny sef bod perfformiad cyfredol y gwasanaeth addysg yn "ddigonol" ynghyd â barn "ddigonol" am y rhagolygon i wella. Oherwydd mai "digonol" ydoedd y farn bryd hynny, golygai bod yr awdurdod wedi mynd i mewn i ôl-ddilyniant gydag ESTYN yn monitro cynnydd yr awdurdod. Ar ddiwedd y trydydd ymweliad diweddar, adroddwyd yn ôl i'r uwch swyddogion, aelodaeth etholedig, a chyhoeddwyd llythyr ffurfiol yn nodi bod ESTYN o'r farn bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â chwe argymhelliad yn sgil arolygiad Mawrth 2013 a oedd yn tynnu'r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

(b) Amlinellwyd y termau a ddefnyddir wrth fonitro yn erbyn yr argymhellion sef bod yr awdurdod wedi:

- gwneud dim cynnydd
- gwneud cynnydd yn rhannol
- ymateb i raddau helaeth
- ymateb yn llawn

(ch)Tywyswyd yr Aelodau drwy'r argymhellion isod gan nodi barn Estyn ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor:

(i) Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r Cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd - Aethpwyd i'r afael â hwn i raddau helaeth

(ii) Codi safonau yng CA4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio yn wael yn fwy cadarn - Aethpwyd i'r afael â hwn yn rhannol

(iii) Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio - Aethpwyd i'r afael â hwn yn rhannol

(iv) Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd - Aethpwyd i'r afael â hwn i raddau helaeth
(v) Gwella ansawdd hunan arfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr Adran Addysg - Aethpwyd i'r afael â hwn yn rhannol
(vi) Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag - Aethpwyd i'r afael â hwn i raddau helaeth

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau i'r Arolygwyr ac fe ymatebwyd iddynt fel a ganlyn:

(i) O safbwynt pa argymhelliad sydd angen mwy o sylw eto, esboniwyd bod tri ohonynt yn nodi bod yr awdurdod wedi mynd i'r afael â hwy i raddau helaeth a thri yn rhannol sy'n golygu dipyn mwy o sylw iddynt. Yn gyffredinol, hyderir y byddai'r Pwyllgor Craffu yn rhoi blaenoriaeth i godi safonau sydd yn greiddiol ym marn ESTYN. Roedd yr arolygiad gwreiddiol yn tynnu sylw i un garfan o ddisgyblion sef Cyfnod Allweddol 4 (CA4) ac un garfan o ysgolion. O ran y darlun cyffredinol, yn 2012 roedd 4 ysgol yn y 25% isaf ar draws Cymru ond erbyn 2013 roeddynt wedi codi safonau ond eto yn 2014, roedd 4 ysgol arall yn y chwartel isaf. Rhaid bod yn wyliadwrus i beidio cymryd y data a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu yn gyffredinol ond sicrhau bod y data yn adnabod ysgolion unigol sy'n tanberfformio gan ddeall pam bo hyn yn digwydd.

(ii) O ran awgrymiadau am rôl y Pwyllgor Craffu i herio ansawdd addysg CA4, nodwyd ei fod yn greiddiol i swyddogion ddarparu gwybodaeth glir i aelodau fedru craffu'n finiog ac effeithiol. Roedd amrywiaeth sylweddol ar draws awdurdodau Cymru o sut cyflwynir data i aelodau etholedig a bod peryg mewn rhai amgylchiadau i gyflwyno data cyffredinol sy'n cuddio tanberfformiad ysgolion unigol. Crybwyllwyd un arfer dda sy'n digwydd mewn awdurdodau eraill yng Nghymru sef lle gwahoddir Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion unigol i fynychu'r Pwyllgorau Craffu i'w herio am berfformiadau.

(iii) Nad oedd ESTYN wedi arolygu GwE ond wedi cynnal arolwg thematig ar gais y Gweinidog Addysg ond fe fyddir yn edrych ar berfformiad GwE yn ogystal â'r 3 rhanbarth arall maes o law.

(iv) Ni fyddir yn newid methodoleg arolygiadau ESTYN ar ysgolion yn sgil toriadau i gyllidebau ysgolion.

(d) Cymerodd yr Aelod Cabinet y cyfle i ddiolch i swyddogion ESTYN am eu gwaith a'r trafodaethau agored a gafwyd yn ystod eu hymweliad ac y byddai'r awdurdod yn canolbwyntio ar y meysydd i wella.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys adroddiad ESTYN gan nodi pwysigrwydd rhoi sylw manwl i'r adroddiad blynyddol ar berfformiad y Gwasanaeth Addysg a fydd gerbron y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod nesaf.**

## 8. CYFLWYNIAD GAN Y PENNAETH ADDYSG

(a) Croesawyd, Mr Arwyn Thomas, y Pennaeth Addysg, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ei weledigaeth i'r gwasanaeth addysg i'r dyfodol yn dilyn ei benodiad i'r swydd ddechrau'r flwyddyn.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy sleidiau ar weledigaeth y Pennaeth Addysg sef bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol, gan ddisgwyl gweld:

- Safonau addysg a lles aruchel;
- Arweinyddiaeth ysbrydoledig;
- Addysgu rhagorol;
- Sgiliau datblygu cwricwlwm a llwybrau gwaith blaengar/arloesol;
- Rhannu rhagoriaeth a dal ein gilydd yn atebol;
- Timoedd aml-asiantaethol yn cynnal teuluoedd bregus er mwyn newid arferion cenedlaethau;

Gall yr uchod ddigwydd pe byddir yn gosod y disgwyliadau yn glir drwy drafodaeth agored; gonest, teg, diduedd a rhaid datblygu'r gweithlu trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus; bod yn barod i newid a mynd i'r afael â phroblemau, ar bob lefel.

O safbwynt craffu ar ysgolion, rhaid gosod isafswm o ddisgwyliadau sef:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda;
- Addysgu da;
- Perfformio yn yr 50% uchaf o leiaf, o blith ysgolion tebyg, ac anelu at y 25% uchaf;
- Dim un o ysgolion Gwynedd i fod yng nghategorïau statudol Estyn.

Ac felly o safbwynt gwasanaethau, roedd yn disgwyl gweld:

- gweithio fel un tîm;
- gweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- atebol am berfformiad yr holl ysgolion a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifainc.

Pwysleiswyd pwysigrwydd gweithio fel un tîm a sicrhau bod isafswm disgwyliadau yn ei le ymhob ysgol ar unrhyw adeg drwy:

- Sicrhau bod safonau dros 3 blynedd yn gymharol gydag ysgolion tebyg
- fod yn hyderus bod yr addysgu ac asesu yn dda
- sicrhau diogelwch plant yn allweddol
- ansawdd yr arweinyddiaeth
- hunan arfarniad gonest sy'n cynllunio gwelliant yn unol â pholisiau

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

(i) Yng nghyd-destun llai o adnoddau ariannol, nododd y Pennaeth Addysg tra'n derbyn bo adnoddau yn prinhau, fel arweinydd y byddai'n sicrhau canlyniadau gorau a byddai'n rhaid newid y ffyrdd o weithio drwy i ysgolion rannu arferion da, peidio ail-gynhyrchu olwynion a mynd i'r afael ag arweinyddiaeth o safon uchel.

(ii) Y byddai'r £4.3m o doriadau i gyllideb ysgolion yn golygu newid i'r cwricwlwm ac o ganlyniad yn cael effaith ar ansawdd addysg y plant. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg y byddai'n rhaid i lywodraethwyr ac uwch dimau rheoli ysgolion ymdrin â'r mater oherwydd y byddai pob awdurdod yn gorfod dygymod â llai o arian.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â sut y byddir yn sicrhau bod monitro a herio ysgolion sy'n tanberfformio yn digwydd, esboniwyd mai'r rôl ydoedd monitro lle yn

union mae pob ysgol yn y Sir yn erbyn isafswm y disgwyliadau fel bo pob rhiant yn hyderus bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn yr ysgolion.

(iv) Mynegwyd siom oherwydd cyfyngiad amser i fedru holi mwy ar y Pennaeth Addysg. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod bwriad i'r Pennaeth Addysg gyflwyno ei weledigaeth i'r Fforymau Ardal maes o law. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol y byddai cyfle i gwestiynu ymhellach wrth gyflwyno adroddiad blynyddol y gwasanaeth addysg i'r Pwyllgor Craffu hwn.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Pennaeth Addysg am ei gyflwyniad a chytuno â'r awgrym bod y Pennaeth yn mynd â'i gyflwyniad i gyfarfodydd y Fforymau Ardal.**

## 9. DIWEDDARIAD RHAGLEN TREFNIADAETH YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn diweddaru'r Pwyllgor Craffu o raglen trefniadaeth ysgolion gan nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma sef y buddsoddiadiadau canlynol:

- gwerth £18m wedi ei wneud yn barod i wella amgylchedd dysgu
- 900 o ddisgyblion cynradd wedi elwa o'r buddsoddiad
- dros £430,000 o arbedion refeniw blynyddol wedi ei gyflawni eisoes
- £9.326m i Ysgol yr Hendre
- £990,000 i uwchraddio Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas
- £1.47m i uwchraddio Ysgol Penybryn, Tywyn
- £5.42m ar gyfer ysgol newydd Craig y Derbyn
- £1m i uwchraddio Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn

ynghyd â'r gwaith sydd ar y gweill sef:

- Sefydlu Ysgol Bro Llifon yng Ngroeslon
- Ad-drefnu yn nalgylch y Gader, Dolgellau
- Cwblhau ad-drefnu yn nalgylch y Berwyn, Y Bala
- Sefydlu Ysgol Arbennig Meirion-Dwyfor ym Mhenrhyndeudraeth - gyda'r gwaith hwn i ddechrau ar 13 Chwefror 2015
- Adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Glancegin, Maesgeirchen, Bangor

O safbwynt safonau addysg, nodwyd nad oedd ESTYN wedi arolygu'r ysgolion newydd ond bod cyfuniad o ffactorau yn golygu bod yr amgylchiadau yn llawer mwy ffafriol o ran gwella safonau na'r hyn oeddynt yn y gorffennol.

Rhoddwyd cyfle i aelodau graffu cynnwys yr adroddiad ac fe amlygwyd y sylwadau canlynol:

(a) Tra'n derbyn bod agweddau cadarnhaol yn yr adroddiad, mynegwyd pryder nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at safonau addysg y sefydliadau newydd o ystyried bod canlyniadau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi a gofynnwyd am adroddiad pellach yn hyn o beth. O ran y defnydd o arbedion yn sgil cynlluniau trefniadaeth ysgolion, esboniwyd bod yr arbedion yn cael ei rannu ar gyfer pob ysgol a rhaid cofio bod ysgolion mwyaf yn derbyn llai o gyllideb gan fod cymaint o ysgolion bach yn cael eu gwarchod gan y rhwyd diogelu.

(b) O ran sicrhau buddsoddiad ar gyfer campws gydol oes yn ardal y Berwyn, nododd yr Aelod Cabinet y byddir yn cyflwyno cais busnes ffurfiol i Lywodraeth Cymru maes o law.

(c) O safbwynt strategaeth trefniadaeth ysgolion uwchradd, esboniwyd y byddir yn ail-ymweld a'r strategaeth er mwyn cyfarch problemau yn ysgolion uwchradd Meirionnydd.
(d) Cyfeiriwyd at neges glir gan y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion i gyflymu ad-drefnu a gofynnwyd a oedd cynlluniau ad-drefnu pellach i ddigwydd. Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Addysg bod aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi cytuno bo angen ystyried trefniadaeth o fewn y ddwy sector sef cynradd ac uwchradd boed hyn i ysgolion gydweithio a / neu ystyried gwahanol opsiynau megis ffederaleiddio, a.y.b.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 1.30 p.m.

**CADEIRYDD.**